COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl269

Amseru:

Teitl: Cyfraniad grant Eiriolwr Dioddefwyr Ffyrdd Annibynnol

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid

Crynodeb Gweithredol:

Gwasanaeth Dioddefwyr Ffyrdd Cenedlaethol Brake yw'r **darparwr cymorth arweiniol mwyaf ar gyfer dioddefwyr ffyrdd yn y DU**. Mae ganddo hanes 20 mlynedd o ddarpariaeth gwasanaeth dioddefwyr ffyrdd achrededig, gan ddefnyddio'r **model gofal sefydledig ar sail tystiolaeth**, sef gofal a reolir yn ôl achos.

Nid llinell gymorth yw'r ddarpariaeth hon - gofal a reolir yn ôl achos o'r diwrnod cyntaf ydyw am cyn hired ag sydd angen (weithiau dros flwyddyn) cyn ymadael yn ddiogel. Darperir gofal drwy bennu **gweithiwr achos enwebedig, hyfforddedig, cyflogedig** i ddioddefydd. Cysylltodd BRAKE â'r CHTh â chynnig i ariannu Eiriolydd Dioddefwyr Ffyrdd Annibynnol penodol ar gyfer Dyfed-Powys am gyfnod o 12 mis, gan weithio'n uniongyrchol â Heddlu Dyfed-Powys o ran cyfeirio dioddefwyr. Mae'r cynnig yn bodloni blaenoriaeth 1 y Cynllun Heddlu a Throseddu, sef sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cefnogi, yn uniongyrchol.

Mae'r CHTh wedi awgrymu rhoi £39,680.45 tuag at y prosiect o'r gyllideb cronfa wrth gefn Ailhyfforddi Gyrwyr am gyfnod o 12 mis. Bydd y prosiect yn cael ei fonitro ar sail chwarterol yn ystod y cyfnod hwn er mwyn gwerthuso llwyddiant a chynnydd.

Argymhelliad:
Argymhellir bod grant yn cael ei roi i BRAKE am gyfnod o 12 mis ar gyfer y swm o £39,680.45 o'r gyllideb cronfa wrth gefn Ailhyfforddi Gyrwyr.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 28/06/2022**